Ministry of Justice

Dioddefwyr trosedd:

# Deall eich hawliau

## Os ydych yn ddioddefwr trosedd a ddigwyddodd yng Nghymru neu Loegr, mae'r Cod Dioddefwyr yn rhoi'r hawl i chi gael gwybodaeth a chymorth gan sefydliadau cyfiawnder troseddol megis yr heddlu a'r llysoedd.

Mae gennych hefyd yr hawl i gael eich atgyfeirio at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr. Nid oes angen i chi adrodd am y drosedd i'r heddlu i gael cymorth gan y sefydliadau hyn. Gallwch eu ffonio eich hun a dweud wrthynt beth ddigwyddodd.

Mae gennych hefyd yr hawl i gael cymorth os ydych yn berthynas agos i rywun sydd wedi cael ei ladd o ganlyniad i drosedd neu os ydych yn rhiant neu'n ofalwr dioddefwr trosedd o dan 18 oed.

**Mae'r Cod Dioddefwyr yn egluro'r rhain a hawliau eraill:**

**gov.uk/victims-code**

Gellir dod o hyd i fersiwn hawdd ei darllen a fersiwn i blant drwy'r ddolen hon hefyd.



## Sut ddylech ddisgwyl gael eich trin?

**Mae gan bob dioddefwr trosedd yr hawl i:**

- gael ei drin gyda pharch, urddas, sensitifrwydd, tosturi a chwrteisi
- gwneud dewisiadau gwybodus sy'n cael eu parchu'n llawn
- cael eich hawliau preifatrwydd o dan y gyfraith wedi'u parchu
- cael cynnig cymorth fel eich bod chi a'ch teulu yn gallu deall ac ymgysylltu â'r broses cyfiawnder troseddol - bydd y cymorth hwn yn cael ei gynnig mewn modd proffesiynol, heb wahaniaethu o unrhyw fath

## Gwasanaethau estynedig

Gall dioddefwyr a ystyrir yn agored i niwed neu wedi'u bygwth, dioddefwyr y drosedd fwyaf difrifol (er enghraifft cam-drin domestig, troseddau casineb, troseddau rhywiol a chan gynnwys perthynas agos sydd wedi dioddef profedigaeth) neu sydd wedi'u targedu dro ar ôl tro dderbyn gwasanaethau estynedig. Gall hyn gynnwys cael cynnig atgyfeiriad at wasanaeth cymorth arbenigol, cysylltiad ynghynt ar ôl penderfyniadau allweddol a chael mynediad at fesurau arbennig (gweler tudalen 10).

## Adrodd am y drosedd




Gallwch adrodd am drosedd i'r heddlu drwy fynd i orsaf heddlu, dros y ffôn neu ar-lein. Bydd yr heddlu yn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â beth i'w ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol ar ôl adrodd am y drosedd. Os oes gwasanaeth cymorth i ddioddefwyr eisoes yn eich cefnogi chi, gallwch siarad â nhw ynglŷn ag a ydych eisiau adrodd am y drosedd.

Efallai y bydd yr heddlu yn gofyn i chi wneud datganiad tyst yn dweud beth ddigwyddodd yn ystod y drosedd. Cyn i chi wneud datganiad tyst, rhaid i'r heddlu asesu eich anghenion i weld a fyddech yn elwa o gymorth ychwanegol. Bydd y datganiad tyst yn rhoi manylion megis pryd ddigwyddodd y drosedd ac ymhle a beth welsoch. Gellir recordio rhai datganiadau tyst ar fideo yn hytrach na'u hysgrifennu. Bydd yr heddlu yn trafod hyn gyda chi.

Os hoffech, gallwch hefyd wneud Datganiad Personol Dioddefwr (gweler tudalen 6), a fydd yn cael ei roi i'r llys i egluro yn eich geiriau eich hun sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch chi.



## Eich diweddaru

Bydd yr heddlu yn eich diweddaru wrth i gynnydd gael ei wneud gyda'r ymchwiliad ac yn rhoi gwybod i chi os gwneir unrhyw arestiadau neu os cyhuddir rhai dan amheuaeth. Bydd yr heddlu yn gofyn i chi pa mor aml yr hoffech glywed ganddynt yn ystod yr ymchwiliad a sut yr hoffech iddynt gysylltu â chi (e.e. dros y ffôn, drwy e-bost, neges destun).

Os yw'r heddlu yn penderfynu peidio ag ymchwilio i'ch achos, rhaid iddynt ddweud wrthych ac egluro pam.



## Cael cymorth gan wasanaethau cymorth i ddioddefwyr

**Nid oes rhaid i chi adrodd am drosedd i gael mynediad at gymorth gan wasanaethau cymorth i ddioddefwyr.**

Os ydych yn adrodd am y drosedd, gall yr heddlu drosglwyddo eich manylion i wasanaeth cymorth i ddioddefwyr a all ddarparu cymorth ymarferol ac emosiynol wedi'i deilwra i'ch anghenion. Gall hyn gynnwys cymorth arbenigol megis i blant, dioddefwyr troseddau rhywiol, neu ddioddefwyr cam-drin domestig.

Os nad ydych eisiau i'r heddlu eich atgyfeirio, gallwch ofyn iddynt beidio â gwneud hynny.

Os yw eich manylion yn cael eu pasio ymlaen, bydd rhywun o'r gwasanaeth cymorth i ddioddefwyr yn cysylltu â chi.

Ceir rhagor o wybodaeth yn: **gov.uk/get-support-as-a-victim-of-crime**

# Datganiad Personol Dioddefwr

**Mae gwneud Datganiad Personol Dioddefwr yn rhoi llais i chi yn y broses cyfiawnder troseddol. Mae'n gadael i chi esbonio yn eich geiriau eich hun sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch, boed yn gorfforol, yn emosiynol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall. Mae eich Datganiad Personol Dioddefwr yn wahanol i'ch datganiad tyst.**

**Rhaid i chi gael cyfle i wneud Datganiad Personol Dioddefwr os:**

- ydych yn cwblhau datganiad tyst neu'n darparu tystiolaeth ar ffurf cyfweliad wedi'i recordio ar fideo
- ydych yn cael eich asesu fel rhywun sydd angen gwasanaeth estynedig (gweler tudalen 3)

Os ydych yn oedolyn bregus neu o dan 18 oed, ac mae er eich lles chi, gall eich rhiant neu ofalwr wneud Datganiad Personol Dioddefwr ar eich rhan.

Os nad ydych yn perthyn i un o'r categorïau hyn, gallwch wneud Datganiad Personol Dioddefwr o hyd, ond bydd yn ôl disgresiwn yr heddlu, lle ymddengys ei fod yn briodol.

Nid oes rhaid i chi wneud un os nad ydych eisiau.

Hyd yn oed os nad ydych yn dewis gwneud Datganiad Personol Dioddefwr yn y lle cyntaf, gallwch wneud un yn ddiweddarach, cyn belled â'i fod cyn dedfrydu'r troseddwr.

Ar ôl chi gwblhau ac arwyddo eich Datganiad Personol Dioddefwr, ni ellir ei newid na'i dynnu'n ôl. Fodd bynnag, gallwch ddarparu un arall i'r heddlu ac ychwanegu rhagor o wybodaeth.

Bydd yr heddlu yn gofyn a hoffech i ran neu'r cyfan o'ch Datganiad Personol Dioddefwr gael ei ddarllen neu ei chwarae yn y llys os yw'r achos yn mynd i'r llys a chanfyddir y sawl dan amheuaeth yn euog.

Gallwch ofyn i ddarllen y Datganiad Personol Dioddefwr
yn uchel eich hun mewn llys agored neu ofyn i rywun arall ei ddarllen yn uchel ar eich rhan. Bydd y llys yn penderfynu a ddylid caniatáu hyn. P'un a ddarllennir eich Datganiad Personol Dioddefwr yn uchel ai peidio, bydd gan y llys gopi ysgrifenedig o'ch Datganiad Personol Dioddefwr a bydd yn ei ystyried cyn penderfynu ar y ddedfryd.

Ni ddangosir eich Datganiad Personol Dioddefwr i'r diffynnydd. Os caiff yr achos ei roi ar brawf mewn llys agored, mae'n bosib y gofynnir cwestiynau i chi amdano gan y cyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran y diffynnydd, ond prin iawn mae hyn yn digwydd. Os holir chi, gallai'r hyn a ddywedwch gael ei adrodd yn y cyfryngau.

Ceir rhagor o wybodaeth yn: **gov.uk/government/publications/victim-personal-statement**

## Gwarediadau'r tu allan i'r llys



Gall yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron, benderfynu delio â'r achos heb fynd ag ef i'r llys. Gelwir hyn yn warediad y tu allan i'r llys. Mae enghreifftiau yn cynnwys rhybudd neu hysbysiad cosb. Bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn cymryd y penderfyniad terfynol ar ôl ystyried amgylchiadau llawn y drosedd a'ch barn chi. Rhaid iddynt ddweud wrthych y rhesymau dros eu penderfyniad.

Ceir rhagor o wybodaeth yn: **sentencingcouncil.org.uk/explanatory-material/magistrates-court/item/out-of-court-disposals/**

## Penderfyniad i beidio ag erlyn

Os yw’r heddlu wedi dilyn pob llwybr ymholi rhesymol ac nid ydynt wedi lleoli unrhyw un dan amheuaeth, byddant yn cau’r ymchwiliad ac yn rhoi rhesymau i chi dros wneud hynny. Os yw rhywun dan amheuaeth wedi’i adnabod, rhaid i’r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron ddweud wrthych os ydynt yn penderfynu peidio ag erlyn y sawl dan amheuaeth am y drosedd a rhoi rhesymau i chi dros eu penderfyniad. Os ydych yn anfodlon â phenderfyniad i beidio ag erlyn, gallwch ofyn am adolygiad ymhen tri mis ar ôl y penderfyniad. Dylech dderbyn gwybodaeth ynglŷn â sut mae ceisio adolygiad gan yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron.

Os yw’r heddlu yn gwneud y penderfyniad, byddant yn rhoi gwybodaeth i chi am eu cynllun adolygiad lleol. Am ragor o wybodaeth am Gynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad Gwasanaeth Erlyn y Goron, ewch i:
**cps.gov.uk/legal-guidance/victims-right-review-scheme**

## Penderfyniad i erlyn

Gall ymchwiliad yr heddlu arwain at y sawl dan amheuaeth yn cael ei gyhuddo â’r drosedd, sy’n golygu y byddant yn mynd i’r llys. Yn dibynnu ar amgylchiadau’r achos, bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu a oes digon o dystiolaeth i fynd â’r sawl dan amheuaeth i’r llys.

## Mynd i'r llys

Ar ôl i'r sawl dan amheuaeth gael ei gyhuddo, cysylltir â chi, fel rheol gan Swyddog Gofal Tystion (cyflogai'r heddlu a'i swydd yw helpu dioddefwyr a thystion gydag unrhyw broblemau ymarferol o ran cyrraedd y llys) neu bwynt cyswllt cyfwerth. Byddant yn aros mewn cysylltiad i'ch helpu hyd nes y bydd yr achos drosodd, gan roi gwybod i chi am ddyddiadau a lleoliadau llys ac a yw'r sawl dan amheuaeth wedi cael ei ryddhau ar fechnïaeth neu'n cael ei gadw yn y ddalfa hyd nes y bydd y treial yn dechrau. Os yw eich achos yn mynd i'r llys, gallwch fod yn dyst yn y treial. Bydd eich Swyddog Gofal Tystion yn dweud wrthych os oes rhaid i chi roi tystiolaeth yn y llys.

Gall eich Swyddog Gofal Tystion eich rhoi mewn cysylltiad â gwasanaethau cymorth tystion a all drefnu cymorth cyn ac ar ddiwrnod y treial, yn cynnwys ymweliadau â'r llys cyn i'r treial ddechrau.

Ceir rhagor o wybodaeth yn:
**gov.uk/going-to-court-victim-witness**



## Mesurau arbennig

**Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, gallwch fod yn gymwys am fesurau arbennig yn ystod y treial i'ch helpu i roi eich tystiolaeth orau yn y llys. Gallai mesurau arbennig gynnwys:**

- cael eich cyfweliad heddlu wedi'i recordio ar fideo yn hytrach nag yn ysgrifenedig - gellid ei chwarae yn y treial
- rhoi eich tystiolaeth a chael eich croesholi gan gyfreithiwr y diffynnydd yn gynharach yn y broses lys ar fideo fel tystiolaeth, fel nad oes rhaid i chi fynychu'r treial o gwbl
- cael sgriniau o amgylch y blwch tystio neu roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo byw, fel nad oes rhaid i chi wynebu'r sawl dan amheuaeth na'i deulu
- cael eich tystiolaeth yn y llys wedi'i chadw'n breifat
- cael cyfryngydd i'ch helpu i ddeall cwestiynau pan gewch eich cyfweld ac yn y treial

Mae rhai categorïau o dystion yn gymwys yn awtomatig i gael mesurau arbennig, a bydd yr heddlu yn dweud wrthych a ydych yn un o'r tystion hynny.

Mewn achosion eraill, rhaid i'r heddlu asesu a fyddech yn elwa o fesurau arbennig.

Os rhoddir mesurau arbennig i chi, rhaid i'r heddlu drafod pa rhai fydd yn eich helpu fwyaf a gofyn i'r llys eich caniatáu i chi eu defnyddio.

Bydd y llys yn gwneud y penderfyniad terfynol ac yn ystyried eich dewisiadau. Fodd bynnag, mae caniatáu ceisiadau am fesurau arbennig bob amser yn benderfyniad barnwrol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fesurau arbennig ac a ydych yn gymwys yn: **www.gov.uk/going-to-court-victim-witness/extra-protection-in-the-courtroom**

Os oedd y drosedd yn ddifrifol neu rydych yn fregus: **gov.uk/your-rights-after-crime**

Gwybodaeth am ddiogelwch ychwanegol yn yr ystafell lys: **gov.uk/going-to-court-victim-witness**

## Y treial



Os mai chi yw dioddefwr y drosedd ond nid ydych yn rhoi tystiolaeth fel tyst, gallwch wylio'r treial o'r dechrau. Dylech ddweud wrth yr Uned Gofal Tystion neu eich pwynt cyswllt gyda'r heddlu fel y gallant roi gwybod i'r llys y byddwch chi yno.

Os ydych yn dyst, dim ond ar ôl i chi roi eich tystiolaeth y gallwch wylio'r treial yn y llys.

## Bod yn dyst

Os ydych yn ddioddefwr trosedd ac yn ymddangos yn y llys fel tyst, mae gennych yr hawl i'r canlynol:

- lle mae amgylchiadau yn caniatáu, cyfarfod â'r erlynydd sy'n cyflwyno'r achos yn y llys a fydd yn egluro beth i'w ddisgwyl ac ateb unrhyw gwestiynau a all fod gennych
- aros mewn ardal ar wahân i'r sawl dan amheuaeth a'i deulu a ffrindiau
- cael unrhyw fesurau arbennig wedi'u rhoi ar waith lle mae'r llys wedi'u gorchymyn
- cael eich cyflwyno i aelod o staff y llys (neu'r gwasanaethau cymorth tystion) a fydd yn ateb eich cwestiynau am yr hyn sy'n digwydd yn yr achos yn ystod y treial

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fynd i'r llys fel tyst yn: **gov.uk/going-to-court-victim-witness**

## Bod yn dyst

Mae fideos ar gael hefyd am y canlynol:

**Llysoedd ynadon:**
**https://youtu.be/pkhyy-r-cF0**

**Llys y Goron:**
**https://youtu.be/j7qlFHLaWKM**

**Bod yn dyst:**
**https://youtu.be/WPtompxJGcU**

Os ydych yn rhoi tystiolaeth fel tyst, ond nid chi yw dioddefwr y drosedd, mae'r Siarter Tystion yn rhoi gwybodaeth i chi am y cymorth a'r gwasanaethau ar gael i chi. Mae'r Siarter Tystion ar gael yn: **gov.uk/government/publications/the-witness-charter-standards-of-care-for-witnesses-in-the-criminal-justice-system**



## Cynllun Cyswllt Dioddefwyr

Mae'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr yn wasanaeth i ddioddefwyr troseddau rhywiol/treisgar lle dedfrydir y troseddwr i 12 mis o garchar neu fwy. Os ydych yn gymwys, bydd eich manylion yn cael eu hatgyfeirio'n awtomatig i'r cynllun gan yr heddlu neu'r Uned Gofal Tystion. Bydd Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn cysylltu â chi i ddweud wrthych am y cynllun i'ch helpu i benderfynu a ydych eisiau cymryd rhan. Os ydych yn dewis cymryd rhan yn y cynllun, bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn eich diweddaru am yr hyn sy'n digwydd i'r troseddwr yn ystod y ddedfryd, yn cynnwys os ydynt yn dod yn gymwys am barôl.

Os ydych yn cymryd rhan yn y cynllun, bydd gennych hefyd yr hawl gyfreithiol i ofyn am amodau y credwch y dylid eu cynnwys ar drwydded y troseddwr pan gaiff ei ryddhau'n ôl i'r gymuned. Gallai hyn gynnwys amod dim cyswllt ac ardal waharddedig, sy'n atal y troseddwr rhag ymweld ag ardaloedd yn agos at lle'r ydych yn byw neu deithio'n rheolaidd.

Ceir rhagor o wybodaeth yn:
**gov.uk/get-support-as-a-victim-of-crime**



## Y broses barôl



I garcharorion y mae eu rhyddhau yn gyfrifoldeb y Bwrdd Parôl, gall dioddefwr wneud Datganiad Personol Dioddefwr (gweler tudalen 6) ac ymgeisio i'r Bwrdd Parôl i'w ddarllen yn uchel. Gall dioddefwyr hefyd ofyn am grynodeb o benderfyniad y Bwrdd Parôl a gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud cais i ailystyried lle mae'r Bwrdd Parôl wedi rhoi cyfarwyddyd i ryddhau.

Ceir rhagor o wybodaeth yn: **gov.uk/guidance/the-parole-boards-commitment-to-victims-of-crime**

Mae gan y Bwrdd Parôl ei bamffled ei hun hefyd: **gov.uk/government/publications/parole-board-information-booklet-for-victims**

## Cyfiawnder adferol

Ar ôl i'r drosedd ddigwydd, fel y dioddefwr efallai y byddwch am ofyn cwestiynau i'r troseddwr ynglŷn â beth ddigwyddodd neu egluro'r effaith mae'r drosedd wedi'i chael arnoch. Efallai y gallwch gael y cyswllt hwn drwy broses a elwir yn 'cyfiawnder adferol'.

Os yw'r troseddwr yn oedolyn ac mae cyfiawnder adferol ar gael yn eich ardal leol, bydd yr heddlu neu'r gwasanaeth cymorth i ddioddefwyr yn rhoi gwybod i chi am sut y gallwch gymryd rhan yn hyn. Chi sydd i benderfynu a ydych am gymryd rhan ai peidio. Mae angen i chi a'r troseddwr gytuno i'r cyswllt ddigwydd.

Os yw'r troseddwr o dan 18 oed ac mae cyfiawnder adferol ar gael yn eich ardal leol, dylai'r Tîm Troseddau Ieuenctid sy'n rheoli'r achos ddweud wrthych sut y gallwch gymryd rhan.

Ceir rhagor o wybodaeth yn: **gov.uk/get-support-as-a-victim-of-crime**

## Iawndal

Os ydych wedi bod yn ddioddefwr trosedd dreisgar, gallwch fod yn gymwys am iawndal drwy'r Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol. Bydd yr heddlu yn rhoi gwybodaeth i chi am sut mae ymgeisio.

I ddysgu mwy ynglŷn ag a ydych yn gymwys a sut mae ymgeisio, cysylltwch â'r Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol ar 0300 003 3601 neu ewch i: **gov.uk/claim-compensation-criminal-injury**

Os ydych yn ddioddefwr trosedd ddi-drais, gallech dderbyn iawndal dan orchymyn llys a gwneud cais am iawndal sifil. Gellir hawlio iawndal dan orchymyn llys ar gyfer y rhan fwyaf o droseddau ac fe'i delir i'r llys gan y diffynnydd cyn cael ei anfon ymlaen i chi. Dylech hefyd gael gwybod sut mae gwneud cais sifil, ond dylech gael eich cyngor cyfreithiol eich hun os ydych eisiau ystyried hyn.

## Gwneud cwyn

Os ydych yn credu nad ydych wedi derbyn eich hawliau o dan y Cod Dioddefwyr, gallwch wneud cwyn. Rhaid i bob asiantaeth y dewch i gysylltiad â nhw ddarparu gwybodaeth i chi am eu gweithdrefn gwyno.

Os ydych yn anhapus â'r ymateb a gewch, gallwch wneud cwyn drwy eich AS i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd.

Gallwch ddod o hyd i'ch AS yn:
**members.parliament.uk/FindYourMP**

Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut mae gwneud cwyn yn:

**www.ombudsman.org.uk**

**gov.uk/your-rights-after-crime/make-a-complaint**

Os oes angen y pamffled hwn mewn fformat gwahanol arnoch, er enghraifft mewn print trwm, ffoniwch +44 (0)203 334 3555 neu e-bostiwch: **general.queries@justice.gov.uk**